

## Ymhle ond yn Nhyddewi?

*Ymhle ond yn Nhyddewi y gallwn ddathlu Gŵyl ein Nawddsant?*

Penrhyn Dewi yw un o'r ardaloedd mwyaf cyfareddol yng Nghymru, o ran harddwch naturiol a hanes ein gwlad. Ac am fod pob ardal arall yng Nghymru braidd ymhell o bobman, mae'r deunaw cant sy'n byw yn y fro wedi hen ddysgu cydweithio'n hapus yn y gymuned. Ceir yma rhyw chwe deg o gymdeithasau a sefydliadau gwirfoddol sy'n brysur ar hyd y flwyddyn.

Efallai fod hyn yn esbonio pam fod Cyngor Eglwysi cadarn yn gweithio yn y fro. Mae i 'Eglwysi Tyddewi Ynghyd' sef enw presennol y Cyngor saith o enwadau, sef y Crynwyr, yr Eglwys Gatholig, yr Anglicaniaid gyda'u Cadeirlan odidog yng Nglyn Rhosyn, y Bedyddwyr, yr Annibynwyr, Grŵp Efengylaidd sy'n cyfarfod yn anffurfiol ac wrth gwrs, ni y Methodistaidd Calinaidd yn ein capel ysblennydd, sef y

Tabernacl. Mae'n amheus gen i os oes unrhyw ardal yng Nghymru sy'n gallu cynnal cyngor eglwysig mor eang o ran ei ddiwinyddiaeth, ac sydd hefyd mor hyblyg yn ei ddefnydd o'r ddwy iaith yn y fro. Mae pawb yn cydnabod serch hynny fod arweiniad Crist yn ganolog i'w ffydd a'u gweithgareddau.

Ond mae yma Gyngor Dinesig hefyd. Peidied neb ac anghofio mai Dinas swyddogol yw Tyddewi! Ac yma, ar ddydd ein Nawdd Sant, daw holl weithgareddau a brwdfrydedd y gymuned, yn grefyddol a secwlar i'w ogoniant. Gwaith y Cyngor Dinesig fydd trefnu a chydlynu'r holl weithgareddau hyn.

Mewn wythnos o weithgareddau, gallwn weld o flwyddyn i flwyddyn y balchder cenedlaethol sy'n codi dathliadau Tyddewi uwchlaw'r lleol i fod yn weithgaredd sy'n hybu'n stori ni fel Cymry o'r cychwyn cynnar. Mae'n

rhyfeddol nodi hefyd fod llinach Dewi o blith teulu Cunedda gynt wedi goroesi yn y fro, ac er nad yw pawb o'i ddisgynyddion yn ymwybodol o'u hetifeddiaeth, eto'i gyd mae yna ddolenni teuluol cadarn yn cydio yn y boblogaeth a'u hanes. Un o blant y fro oedd Dewi, nid ffrwyth chwedl fel yn hanes nawdd seintiau eraill gwledydd Prydain.

Ond beth am weithgareddau'r ŵyl eleni? Ers rhyw bythefnos, mae ffenestri'r tai a'r siopau wedi eu gwisgo ar gyfer yr ŵyl. Mae'n werth eu gweld bob un a dyfalu pa un fydd yn ennill.

Thema arddangosfa'r Gymdeithas Hanes fydd 'Addoliad yn Nhyddewi' sef hanes addoldai Cristnogol y fro. Bydd paneli yn cael eu harddangos yn y Neuadd Goffa gydol yr wythnos. Eleni, fe fydd dathlu mawr yn ein hanes

*(parhad ar dudalen 2)*

## CAMU a Dyfodol Eglwys Bresbyteraidd Cymru



*Cawsom ein herio yr wythnos diwethaf gan y Parch. Gwyn Rhydderch i ystyried gwir ddyfodol Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Y tro hwn mae'n ein hannog i chwilio am ffyrdd o 'gamu'n' ymarferol i'n dyfodol.*

**'Rwyf am weld eglwysi y bydd plant, pobl ifanc, teuluoedd ac oedolion wrth eu bodd yn perthyn iddynt, eglwysi y byddant wrth eu bodd yn eu mynychu.'**

Onid yw llawer o'n heglwysi ar beiriannau achub bywyd yn disgwyl i farw?

Ymddengys nad oes ganddynt unrhyw gonsyrn am fywyd na chenhadaeth bresennol yr eglwys na'i gwaith i'r dyfodol chwaith. Credaf fodd bynnag fod gennym rhai eglwysi sydd am fyw. Maen nhw'n awyddus i gael presennol a dyfodol ond o bosib wedi colli gweledigaeth a gobaith. Dyna ble y gall CAMU helpu!

Pwrpas y cynllun CAMU yw helpu eglwysi ddod yn eglwysi sydd yn...

**CYHOEDDI** Duw ac Iesu, ac yn gwasanaethu'r gymuned leol gyda



*'Ymrowch i'r ARGLWYDD ym mha bynnag beth a wnewch, a bydd ef yn sefydlu eich cynlluniau.'*

*(Diarhebbion 16:3)*

chynhesrwydd a chroeso, gan adlewyrchu Iesu a llawenydd yr Efengyl.

**ADDYSGU** pobl am Iesu gan ddarparu patrymau o addoliad sydd yn cynnig profiadau ysbrydol i bobl o bob oed a darparu gweithgareddau sydd yn helpu pobl i ddyfnhau eu perthynas â Duw yn Iesu.

**MEITHRIN** y naill a'r llall wrth eu hannog i fentro mewn cyfeiriadau newydd. Annog ein haelodau i fod yn rhan o'r gwaith. Annog teuluoedd i fod yn rhan o'r eglwys leol.

**UNO** pobl o bob oedran o fewn yr eglwys mewn gwaith ac addoliad, gan

*(parhad ar dudalen 2)*

## Ymhle ond yn Nhyddewi? (parhad)

ninnau fel Methodistiaid Calфинаidd gan fod y Tabernacl yn 200 mlwydd oed. (Cawn ddatliadau arbennig ar Ebrill 30 i nodi'r achlysur.)

Ar y Sadwrn, dewch draw i fwynhau'r cawl lleol, neu redeg hanner marathon ar hyd llwybr y glannau. Neu efallai gyda'r hwyr gallwch ymuno mewn twmpath yng nghwmni Dawnsywyr Glan Cleddau yn Neuadd y Ddinas.

Ar y Sul, yn ogystal â'r gwasanaethau corawl yn y Gadeirlan, bydd yna Gymanfa Ganu Unedig yng Nghapel Bedyddiedig Seion, lle bydd y Cyngor Dinesig yn ymgynnull gyda'r holl gymuned, cyn i bawb droi am baned a chace planc yn Neuadd y Ddinas.

Ond efallai mae marchogaeth hen feiciau modur fydd eich diléit, ymunwch â'r criw ar eu taith, neu dewch i gefnogi'r timau ieuencid brwd yn y Clwb Rygbi.



Byddwn yn paratoi at yr Eisteddfod ar ddydd Llun er mwyn i'r gweithgareddau lithro'n esmwyth gydol Dydd Mawrth. Gŵyl yr henoed fu hi ar y dechrau, ond mae'r Eisteddfod bellach yn datblygu'n ŵyl gymunedol i bawb. Mae hyn yn galonid i'r pwyllgor wrth inni feddwl am ei dyfodol. Eisteddfod ddwyieithog yw hi gyda phwyslais mawr ar gelf a chreffft a choginio yn ogystal a llenyddiaeth Gymraeg, Saesneg a chystadlaethau'r llwyfan.

Ar Fawrth y cyntaf bydd o leiaf bedwar gweithgaredd cymunedol ar ddeg ar waith gan gynnwys seremoni i ddarllen englyn gan y diweddar brifardd Jâms Niclas yn Oriol y Parc a gweld paladr yn haul yn taro ar ei eiriau sydd wedi eu naddu ar lawr y cwrt. Yna bendithir y dorf gan ein hesgob newydd, Joanne.

Ar y Sadwrn, gyda marchnad agored ar Sgwâr y Groes a Gorymdaith y Dreigiau lliwgar ar hyd y brif stryd y coronir yr wythnos.

Dewch i Dyddewi i ddathlu Gŵyl ein Nawddsant!

**William Owen (Parch), Caerfarchell**

Ymwelwch â gwefan  
Eglwys Bresbyteraidd Cymru:  
[www.ebcpcw.org.uk](http://www.ebcpcw.org.uk)

## CAMU a Dyfodol Eglwys Bresbyteraidd Cymru (parhad)

ffurfio partneriaethau i hyrwyddo teyrnas Dduw yn y gymuned.

Credaf y bydd eglwysi sydd yn arfer yr uchod yn llwyddo i ddenu plant, pobl ifanc, teuluoedd ac oedolion. Nid yn unig bydd y bobl hyn yn mynychu, ond byddant hefyd yn tyfu i garu'r eglwys honno a'r hyn y mae'n sefyll drosti.

### NOD

Fy ngweledigaeth i yw gweld o leiaf 30 o eglwysi yn rhan o gynllun CAMU erbyn 2021. Mae rhai eglwysi eisoes yn gweithredu egwyddorion CAMU i bob pwrpas, heb unrhyw help gan ein gweithwyr ni. Er mwyn inni geisio cyrraedd 30 cynulleidfda, bydd angen i'n gweithwyr gael eu gweld yn ein Henaduriaethau a chael eu hadnabod gan ein pobl.

Beth felly am ein gwahoddi ddod i gyfarfod â'ch Henaduriaeth neu eich cynulleidfda fel y medrwn rannu'r weledigaeth a'r camau ymarferol y medrwn eu cymryd efo chi.

Mae'n rhaid i'r cynllun strategol a'r weledigaeth asio gyda phersonoliaeth y sefydliad a chychwyn yn y fan y mae pob eglwys yn ei chael ei hun ynddi ar hyn o bryd. Mae'n rhaid i'r cynllun fod yn realistig ac yn ymarferol o ran gweithwyr, arweinwyr ac adnoddau. Dylai fod yn syml heb fod yn simplistig. Er mwyn llwyddo, mae'n rhaid i'r cynllun strategol fod yn gwbl ddealladwy ac yn cael ei gofleidio'n llwyr gan holl aelodau'r tîm. Fydd y cynllun ddim yn llwyddo yn y pendraw, os nad yw'n cael ei gefnogi gan y tîm ac arweinyddiaeth EBC. Mae llwyddiant y cynllun yn dibynnu ar ddeialog

barhaus rhwng pawb sy'n rhan o'r broses.

Mantais gweledigaeth syml fel hon yw y bydd rhai eglwysi yn sylweddoli mai yn Nuw y mae'n gobeithion ac y gall camau bach arwain at ganlyniadau ffrwythlon. Mae'n rhaid i'n hymdrechion fod yn seiliedig ar y Beibl, yn rhai sydd wedi eu trochi mewn gweddi ac yn rhai sydd yn anrhydeddu Duw, neu fel arall ofer fydd ein hymdrechion.

*Ymrowch i'r ARGLWYDD ym mha bynnag beth a wnewch, a bydd ef yn sefydlu eich cynlluniau. (Diarhebion 16:3)*

Credaf mai'r cwestiwn sylfaenol syml yw: Pam fod Eglwys Bresbyteraidd Cymru – ac yn y cyd-destun hwn – y Gwasanaeth Plant ac Ieuencid yn bodoli? Dwi'n berson positif, yn or-optimistaidd efallai yng ngolwg rhai!

Credaf fod rhaid inni wneud rhywbeth cadarnhaol a syml i'w weithredu er mwyn mynd i'r afael â sefyllfa sydd yn ymddangos mewn termau dynol, fel pe bai wedi cyrraedd yr unfed awr ar ddeg!

Ein prif waith yw helpu creu eglwysi y bydd plant, pobl ifanc, teuluoedd ac oedolion wrth eu bodd yn perthyn iddynt, eglwysi y byddant wrth eu bodd yn eu mynychu.

**Gwyn Rhydderch (Parch),  
Cyfarwyddwr Gwasanaeth Plant  
ac Ieuencid**

**(Gol. Dyma her drwy'r Gymanfa Gyffredinol gan ein Cyfarwyddwr Plant ac Ieuencid. Sut ydych chi'n gweld ein dyfodol? Gadewch i ni wybod – bydd ein darllenwyr yn falch o ddarllen eich ymatebion.)**

## Ordeino yn Henaduriaeth Trefaldwyn



Ar 4ydd Chwefror yng Nghapel Maengwyn, Machynlleth ordeinwyd Mr Richard Evans a Mrs Dorothy Pugh yn flaenoriaid yn y capel ac hefyd croesawyd Mr John Price yn flaenor i'r capel.

Yn y llun gwelir o'r chwith Mr Wyn Davies (llywydd yr Henaduriaeth), Mr Richard Evans, Mrs Dorothy Pugh, Mr John Price a Mr Gwyn Roberts (llywydd Cymdeithasfa'r Gogledd).

**Anora Johnson**